

5.5 Personau Sanctaidd a Sectau

Fel yn achos y prif grefyddau eraill, y mae gan Iddewiaeth ei dosbarth o wŷr sanctaidd, dynion sydd wedi eu dewis i gyflawni dyletswyddau arbennig yn enw'r grefydd. Yn ogystal, y mae nifer o sectau crefyddol wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad a hanes y grefydd. Erbyn hyn aeth rhai o'r personau a'r sectau yn rhan o hanes gorffennol y grefydd, ond ni ellir trafod Iddewiaeth yn ei chyfanrwydd heb gyfeirio at y pwysicaf ohonynt.

(a) Offeiriad

Ar y dechrau nid oedd galw am offeiriadaeth swyddogol. Yr oedd y tadau Iddewig, er enghraifft, yn offeiriad answyddogol fel petai. Cyflawnodd Abraham waith offeiriad — cododd allor, offrymodd aberthau, a gweddiodd ar Dduw. Ond yn gynnar yn hanes Israel, pan gydnabyddid bod lle arbennig yn lle sanctaidd, rhaid oedd cael rhywrai cymwys i ofalu amdano, i arwain yr addoli a gweinyddu'r defodau, hynny yw, i gyflawni swyddogaeth offeiriadol. Ar y dechrau yr oedd yr offeiriad yn gyfrifol yn enw Duw am weinyddu wrth yr allor, ac yng nghyfnod Moses, rhoddwyd y flaenoriaeth yn y gorchwyl hwn i lwythau Lefi ac Aaron a'u disgynyddion. Yn raddol cynyddodd pwysigrwydd yr offeiriadaeth mewn mannau cysegredig fel Sello, Nob a Gilgal. Datblygodd teuluoedd offeiriadol, a throsglwyddwyd y swydd a'r cyfrifoldeb o un genhedlaeth i'r llall. Tyfodd yr offeiriadaeth yn ddosbarth ar wahân â breintiau a hawliau neilltuol ganddynt. Hwyr ym unig a weinyddai wrth yr allor, a hwy oedd y cynghorwyr a'r barnwyr mewn materion personol a chyhoeddus. Daeth yn arfer i wisgo gwisg arbennig, sef yr effod (Exodus 28 : 39).

Cynyddodd dylanwad yr offeiriadaeth drachefn pan adeiladwyd y deml yn Jerwsalem, a datblygodd y dosbarth offeiriadol yn un dylanwadol iawn. Cododd graddau o offeiriad, ac ar ôl dychwelyd o Babilon (gwel. 2.6), cynyddodd dylanwad yr offeiriad yn fwy byth dan awdurdod yr arch-offeiriad.

Daw'r Lefiaid i'r amlwg fel urdd gysegredig, ond ni ellir dweud pa bryd y dechreuant ar eu gwaith offeiriadol. Yn llyfr y Barnwyr (17) ceir hanes amdanynt yn gweinyddu fel offeiriad, ac yn ôl y llyfr hwn, ceid offeiriad teuluol ar wahân i'r Lefiaid, ond yng nghân Moses (Deuteronomium 33) awgrymir mai aelodau o deulu Lefi yn unig a oedd â'r hawl i'r offeiriadaeth. Yn ddiweddarach ar ôl y gathglud, teulu Aaron a gafodd y flaenoriaeth yn y gwaith hwn, a'r Lefiaid yn israddol iddynt. Ceir hanes amdanynt fel swyddogion y deml, ond ni ddywedir dim amdanynt yn cyflawni cyflawn waith offeiriad swyddogol. Hynny yw, yr offeiriad swyddogol o linach Aaron a arweiniai mewn addoliad, ac offrymu aberthau ac

ymddangos gerbron Duw ar ran y genedl; hwy a fendithiai'r bobl a gweinyddu'r gyfraith — dyletswyddau'r gwir offeiriad. I gyflawni'r gwaith hwn yn fedrus a rheolaidd, rhannwyd yr offeiriadaeth yn bedwar dosbarth ar hugain, i fod yn gyfrifol bob yn ail am weinyddu'r defodau yn y deml.

(b) Proffwydi

Yng nghyfnod y Beibl, cyrhaeddodd crefydd yr Iddew binael uchel iawn trwy waith y proffwydi. Bu eu dylanwad yn fawr a'u cenadwri yn berthnasol i bob cyfnod ac i bob datblygiad ysbrydol yn y grefydd oddi ar y cyfnod hwnnw. Yma nid oes gofod ond i alw sylw at dair agwedd ar bwysigrwydd y proffwydi o safbwynt cynnydd y grefydd Iddewig.

1. Tarddiad a swydd y proffwyd

Defnyddir dau air yn y Beibl i ddynodi twf a gwaith y proffwyd: gwledydd (ROEH) a llefarydd (NABI). Yr oedd gan y cyntaf y ddawn i ragweld digwyddiadau'r dyfodol (gwel. 1 Samuel 9 : 7-8); yr oeddynt yn 'gweld' ac yn 'clywed' ac felly'n gallu proffwydo'r dyfodol. Yr oeddynt yn 'ymdeimlo' â'u neges hyd seiliau eu bod, ac yn rhybuddio eraill ynglŷn â'r hyn a oedd i ddigwydd.

Credir mai cyfeirio at waith y proffwyd fel llefarydd ar ran arall (Dduw) a wna'r gair NABI. Câl ei neges yn uniongyrchol oddi wrth (Dduw), naill ai trwy weliedigaeth neu brofiad o glywed y llais dwyfol, neu drwy gyfuniad o'r ddau, ac felly fe'i gorfodid i gyhoeddi neu bregethu'r neges o obaith neu o farn. Ef oedd negesydd (llefarydd) Duw gerbron y bobl.

2. Neges y proffwydi

Llefarydd y proffwyd ar ran Duw, gan drafod a chyfleu'r sefyllfa fel ag yr oedd, yn grefyddol, yn foesol, yn genedlaethol, yn gymdeithasol neu'n wleidyddol. Yr oedd ei eiriau'n berthnasol i bob sefyllfa ond rhôl bwyslais ar ymyriad Duw yn hanes Eib bobl. Ar yr un pryd yr oedd y neges yn cyfeirio at ddigwyddiadau a oedd i ddod yn sgîl ymddygiad y bobl, yn unol ag ewyllys Duw ar eu cyfer. Ond pa un ai'r sefyllfa fel ag yr oedd neu'r canlyniadau a oedd i ddilyn, yn ôl y datguddiad dwyfol, a ddôl i ran y proffwyd, ni chyhoeddai ddim y tu allan i amodau'r cyfarnod â'r bobl etholedig. Gwir yw geiriau Amos am broffwydi'r Beibl i gyd:

'Chwi yn unig a adnabûm o holl deuluoedd y ddaear.'

(Amos 3 : 2)

3. Gwerth parhaol dysgeidiaeth y proffwydi

I'r proffwydi y datguddiwyd y gwirioneddau canolog am Dduw a dyn, ac y mae'r gwirioneddau hyn yn hollbwysig o safbwynt Iddewiaeth hyd y dydd hwn. Cyhoeddodd y proffwydi yn eglur a

chydag argyhoeddiad mai un Duw sydd, mai Ef yw'r Creawdwr a'r Cynhaliwr, mai mynegiant o'i ras a'i ragluniaeth yw Ei gyfamad ag Israel a'r holl fyd. Llefardd y proffwydi am fywyd dyn yn y byd, ei fraint a'i urddas, a'i gyfrifoldeb i fyw a gweithredu yn unol â safonau a disgwyliadau'r cyfamad dwyfol. Llywia'r cyfrifoldeb hwn ei fywyd personol a chymdeithasol, a phob perthynas wleidyddol a chenedlaethol, ei ymddygiad tuag at Dduw fel addolwr ac fel aelod o genedl ddewisedig.

Ar sylfaen gadarn dysgeidiaeth proffwydi'r Beibl y mae Iddewiaeth wedi adeiladu teml ei chrefydd ysbrydol, a hyn sydd yn gyfrifol i raddau am y gwirionedd mai cyfuniad o ffydd a dull o fyw yw crefydd yr Iddew. Y mae Iddewiaeth yn ymwybodol o'i dyled i ysbryd y ddisgeidiaeth broffwydol, ac y mae'r proffwydi yn eu tro wedi symbolu'r grefydd i'w chadw'i hun yn grefydd bersonol bur, ddihalogedig ac ymarferol. Delfryd y proffwydi yw delfryd Iddewiaeth gywir o hyd:

'Dangosodd efe i ti, ddyn, beth sydd dda; a pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw?' (Micha 6 : 8)

(c) *Rabbi*

Yn sgîl diddymu dylanwad yr offeiriadaeth ar ôl dinistrio'r deml yn 70 OC daeth arweinwyr eraill i'r amlwg. Yn eu plith yr oedd rhai â diddordeb ganddynt yn y Gyfraith, gwŷr a oedd yn hyddysg yn ei hystyr a'i harwyddocâd. Yn eu plith yr oedd yr Ysgrifenyddion, a hwy a gymerodd yr enw Rabbi, sef athro.

Ar ôl y digwyddiad trychinebus yn 70 OC (gwel. 2.6), bu mwy o alw am ddiogelu hanfodion y Gyfraith a buddiannau'r grefydd nag erioed, a rhoddwyd y gorchwyl o ddiogelu'r Gyfraith a hyfforddi eraill ynddi i'r Rabbi. Ar yr un llaw daethpwyd i feddlwl am y Rabbi fel un a etifeddodd ysbryd a gwaith yr offeiriad a'r proffwydi, ac ar y llaw arall fel athro yn y Gyfraith a barnwr swyddogol i'w genedl.

Wedi i'r Rabbi gwblhau ei addysg mewn athrofa Iddewig ordeinid ef i'w waith gan bennaeth yr athrofa. Defod seml o osod dwylo oedd defod yr urddo, ond yn awr yr oedd yn athro swyddogol ei grefydd ac yn gyfrifol am ei dysgu a'i dehongli yn y synagog. Nid offeiriad a gynrychiolai'r bobl o flaen Duw oedd y Rabbi, ac nid gweinidog ordeiniedig ydoedd ychwaith. Lleygwr oedd y Rabbi a wasanaethai fel athro a phregethwr, ac a weinyddai yn nefodau'r grefydd.

A dyna yw swyddogaeth y Rabbi yn y grefydd hyd heddiw. Ef sy'n gweinyddu yn y synagog, ac yn traddodi'r homili yn y gwasanaeth, ond nid yw ei waith addysgol yn gyfyngedig i'r gwasanaethau Sabothol.

Heddiw gweinyddir y synagog gan fwrdd o ymddiriedolwyr, ac fel

arfer y mae'r Rabbi yn aelod o'r bwrdd hwn. Felly gall gyfrannu i drafodaethau'r bwrdd gweinyddol, a dylanwadu ar ei benderfyniadau, ond nid oes ganddo hawl i bleidleisio. Awdurdod i arwain a chyfarwyddo sydd ganddo, ac nid awdurdod cyfreithiol. Cyflawna'r Rabbi ei waith mewn ysbryd gwirfoddol er mwyn gwasanaethu'r grefydd. Ystyrir ef yn arweinydd y grefydd, ac ef yn anad neb arall sy'n gyfrifol am barhau a gwarchod Iddewiaeth draddodiadol, offeiriadol a phroffwydol fel cyfundrefn a chrefydd fyw. Ystyrir lythrennol y gair Rabbi yw 'fy athro' neu 'fy meistr', a meddylir amdano fel gŵr sydd wedi'i hyfforddi i ddehongli ewyllys Duw yn unol â dysgeidiaeth a datguddiad y TORAH.

(ch) *Sadwceaid*

Cysylltir enw'r sect hon â Sadoc, y prif offeiriad yn nyddiau Solomon. Dyma'r allwedd i ddeall ei safle a'i gwaith. Plaid offeiriadol oedd y Sadwceaid a oedd yn gysylltiedig â'r deml, ac yn ystod cyfnod y Macabeaid yn yr ail ganrif CC, codasant i safle o awdurdod mawr. Ceir y cyfeiriad cyntaf atynt fel sect annibynnol yng nghyfnod Ioan Hyrcanus (135-105 CC).

Yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid, cododd y Sadwceaid i safle uchel trwy eu parodrwydd i gefnogi llywodraeth Rhufain yn ei phollisi tuag at Iddewiaeth. Ond ar ôl cwymp Jerwsalem yn 70 OC, a dinistrio'r deml, ni chlywn ragor am y Sadwceaid fel plaid ar wahân.

Diddordeb pennaf y Sadwceaid oedd diogelu defodau'r deml a rhagorffaint eu hurdd. Perthynent i'r dosbarth pendefigaidd, ac yn wahanol i'r Phariseaid, nid oeddnynt mewn cysylltiad agos â'r werin bobl. Yn wir, yr oedd eu gwrthwynebiad i'r Phariseaid yn chwewr, ac yr oedd y ddwy sect yn wahanol eu barn ar faterion crefyddol a gwleidyddol.

O ran eu daliadau crefyddol, yr oedd y Sadwceaid yn derbyn y TORAH ysgrifenedig fel yr unig awdurdod mewn materion crefyddol a moesol. Ni dderbyniwyd ganddynt unrhyw orchymyn oni chodai'n uniongyrchol o Bumlyfr Moses. Gwrthodent y Gyfraith lafar a oedd mor agos at galon y Phariseaid. Nid oedd traddodiad yn cyfrif dim iddynt onid ymddangosai'n gyson â'r Pumlyfr.

Gwrthodent hefyd y duedd boblogaidd i gredu yn nyfodiad y Meseia o linach Dafydd. Credent fod dysgeidiaeth y proffwydi ar y pwnc wedi camarwain y bobl, ac ni allent dderbyn o gwbl y deuai'r Meseia i sefydlu teyrnas ar ddelfw teyrnas Dafydd. Canolbwynt gobaith meseianaidd y Sadwceaid oedd y Meseia offeiriadol 'o dŷ Aaron ac Israel' (Exodus 28, 29), a'r addewid y datblygai'r Iddewon yn 'frenhiniaeth o offeiriad' (Exodus 19 : 6).

Yr oeddnynt yn wahanol i Iddewiaeth boblogaidd eu dydd mewn

sawl agwedd arall ar eu credo. Gwadent atgyfodiad a rhagarfaeth ddwyfol, ond rhoddent bwyslais mawr ar ryddid yr unigolyn. Gwrthodent y gred mewn angylion ac ysbrydion, ac at ei gilydd yr oedd eu credo yn fwy diriaethol na chredo'r mwyafrif o Iddewon. Yn hyn o beth yr oeddynt yn fwy ceidwadol na'r Phariseaid, ac yn llai parod i dderbyn syniadau newydd.

Yn ystod y ganrif gyntaf OC, penodid yr arch-offeiriad gan y Rhufeiniaid. Yr arch-offeiriad oedd prif swyddog y wladwriaeth Iddewig, ac i'r sect Sadwceaid y perthynai. Ceir enw dau ohonynt yn y Testament Newydd, sef Annas (6-15 OC) a Chaiaphas (18-36 OC). O dan awdurdod y Sadwceaid, y Sanhedrin oedd llys uchaf Iddewiaeth, a chan mai aelodau o'r blaidd offeiriadol oedd yn y mwyafrif, a'r prif offeiriad yn llywydd y llys, yr oedd dylanwad y sect hon yn fawr iawn.

Yr oedd gwahanol ysgolion o Sadwceaid, a diau fod rhai ohonynt yn grefyddwyr defosiynol a chydwybodol iawn.

(d) *Phariseaid*

Daw'r enw hwn i'r amlwg yng nghyfnod brenhinoedd offeiriadol yr Hasmoneaid (hynny yw, ffyddloniaid Duw) yn yr ail ganrif CC. O dan Ioan Hyrcanus (135-105 CC), cododd y Phariseaid i safle o awdurdod, ac yn nyddiau Alexandra Salome (76-67 CC) codasant i fod yn ddylanwadol yn y Sanhedrin (cyngor canolog Iddewiaeth) ac mewn gwleidyddiaeth. Ni bu eu byd mor braf yn ystod teyrnasiad Antipater a Herod, a gwanhaodd eu dylanwad gwleidyddol oherwydd eu bod yn amharod i ymuno mewn unrhyw chwyldro yn erbyn Rhufain. Oherwydd hyn enillodd y Phariseaid ewyllys da y Rhufeiniaid, a hyn a barodd iddynt godi i fod yn arweinwyr y grefydd Iddewig ar ôl cwymp Bar Cochba, prif amddiffynnwr yr Iddewon yn erbyn llywodraeth Rhufain, yn 135 OC. Erbyn diwedd yr ail ganrif OC, y Phariseaid oedd prif athrawon ac arweinwyr Iddewiaeth.

Ystyr y gair Pharisead yw 'un ar wahân' neu 'un a wahanwyd'. Yr oedd eu dylanwad ar Iddewiaeth yn y canrifoedd cyntaf OC yn fawr iawn. Hwy oedd y sect agosaf at y bobl gyffredin, a hwy yn anad neb a oedd yn gyfrifol am gadw ysbryd Iddewiaeth boblogaidd yn fyw, ac am annog Iddewon i gadw pob cymal a sillaf o gyfraith Moses.

Seiliodd y Phariseaid eu dysgeidiaeth ar y TORAH. Darganfu aelodau'r sect yn y TORAH ewyllys Duw ar gyfer pob agwedd ar fywyd. Felly pwysleisiai'r Phariseaid mor hanfodol ydoedd dysgu'r TORAH, a myfyrio arni. Dylai hyn fod yn fwyd a diod i bob Iddew. Er mwyn sicrhau bod gorchmynion y TORAH o fewn cyrraedd i bawb, sefydlodd y Phariseaid y TORAH ysgrifenedig (TORAHSE-BIKTAB). Trwy wneud hyn yr oedd yn bosibl i holl orchmynion y

Gyfraith (y 248 o orchmynion cadarnhaol a'r 365 o rai negyddol) fod o fewn cyrraedd pob Iddew.

Aethant ymhellach na hyn â'u hesboniadau a'u hychwanegiadau at y Gyfraith ysgrifenedig er mwyn gofalu y cedwid pob rhan o'r TORAH yn y modd penodedig. Er enghraifft, dywed y Deg Gorchmyn (y Gyfraith ysgrifenedig) — 'Cofia y dydd Saboth i'w sancteiddio ef'. Ond er mwyn gofalu na wnaï'r Iddew unrhyw waith ar y Saboth, naill ai drwy anwybodaeth neu'n ddamweiniol, creodd y Phariseaid 39 o reolau fel atodiad i'r ddeddf. Dyma fel y tyfodd y Gyfraith lafar (TORAH IS-BE'AL PEH), a rhoddodd y Phariseaid yr un awdurdod a theyrngarwch i hon ag i'r Gyfraith ysgrifenedig. Hawlient fod eu hesboniadau a'u hychwanegiadau yn dirwyn yn ôl yn y pen draw i gyfnod Moses, ac yn ffurfio rhan o Draddodiad yr Hynafiaid. Dyma enghreifftiau o'r Gyfraith lafar:

'Agor dy dŷ i fod yn fan cyfarfod i'r doeth, eistedd wrth eu traed yn y llwch, ac yf eu geiriau fel gŵr sychedig. Cadw draw oddi wrth gymydog drwg, paid â chyfeillachu â'r drygonus, a phaid â gwadu'r gred mewn barn. Byddwch yn ddisgyblion i Aaron, yn caru ac yn dilyn tangnefedd, yn caru eich cyd-ddynion ac yn eu harwain yn nes at y Torah.'

Cynrychiola'r Phariseaid Iddewiaeth gul ac anhyblyg. Yr oedd eu credo a'u gwaith ynghlwm wrth draddodiad. Credent yn nhra-arglwyddiaeth Duw a'i ewyllys diamheuol ar gyfer y bobl etholedig. Yr Iddewon oedd y bobl etholedig y galwodd yr Arglwydd arnynt i fyw a bod dan awdurdod llwyr y TORAH. Y mae'r awdurdod hwn yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd, ac y mae pob gweithred foisol ac ymarferol yn amlgu unpwygrwydd meddwl a chyraeddiadau'r TORAH. Ni all unrhyw Iddew gyflawni dim mwy derbynol yng ngolwg Duw na chadw'r TORAH ar ei hyd, a rhaid mesur cyfraniad y Phariseaid i Iddewiaeth yn ôl eu gwaith a'u sêl yn y maes hwn. Oherwydd eu cysylltiad â'r werin bobl a'r synagog, yn hytrach na'r deml, yr oedd eu gafael arnynt yn weddol dynn. Ceisasant ei gwneud yn bosibl i bob unigolyn gadw pob rhan o'r Gyfraith a derbyn y fendith a ddôl o hynny. Nid casgliad o ddeddfau crefyddol yn unig oedd y TORAH, ond cyfarwyddiadau ar gyfer bywyd yn gyfan gwbl. Nod y Phariseaid oedd sicrhau bod y cyfarwyddiadau'n hysbys, a pharatoi'r ffordd i bawb eu dilyn a'u cadw. Yr oeddynt bob amser yn frwd o blaid iawnderau'r unigolyn a budd cymdeithas. Iddynt hwy, curiad calon Iddewiaeth oedd ufudd-dod llwyr i'r TORAH a theyrngarwch iddi ymhob dim.

O ran eu credo, dilynent brif elfennau'r traddodiad Iddewig. Credent mewn angylion ac ysbrydion, mewn atgyfodiad, a thyngeid y genedl yn ôl trefn Duw. Coleddent y gobaith meseanaidd, ac edrychent ymlaen at Ddydd yr Arglwydd pryd y dyrcheffid y genedl

etholedig yn ben ar genhedloedd y byd a sefydlu teyrnas Duw ar y ddaear.

(dd) *Ysgrifenyddion*

Yr enw Hebraeg ar y sect hon, yn wreiddiol, oedd **SOPHER**. Swyddog brenhinol oedd i ddechrau, oherwydd ei allu i ddarllen ac ysgrifennu. Ar ôl cyfnod y gaethglud (gwel. 2:6) daeth i olygu swyddog mewn materion crefyddol, a bu sect yr Ysgrifenyddion yn fawr eu dylanwad hyd at gwmp Jerwsalem yn 70 OC.

Yn nyddiau Esra, yr Ysgrifenyddion a oedd yn gyfrifol am esbonio'r Gyfraith (Esra 7 : 11), a daethpwyd i synio amdanynt fel gwŷr hyddysg ynddi ac fel rhai a oedd yn awdurdod arni. Hwyl oedd esbonwyr swyddogol y Gyfraith, a hwy a greodd y syniad mai 'Pobl y Gyfraith' oedd pobl yr Arglwydd.

Lledaenodd dylanwad yr Ysgrifenyddion yn ystod y ddwy ganrif cyn Crist a hyd at 70 OC. Fel y Phariseaid, yr oeddynt mewn cysylltiad agos â'r synagog a'r bobl gyffredin, a hwy oedd yn gyfrifol am lunio trefn y gwasanaethau yn y synagog. Yr oeddynt yn gydwytbodol iawn hefyd yn eu gofal am yr ysgrifurau ysgrifenedig, ac wrth eu trosglwyddo i eraill yn enwedig. Cadwent at y traddodiad llafar, a hwy, yn nhyb yr Iddew, oedd arweinwyr ysbrydol y genedl a rhoddwyd yr enw Rabbi iddynt (gwel. 5.5[c]).

Yr oedd yr Ysgrifenyddion hefyd yn athrawon y Gyfraith. I'r pwrpas hwn, defnyddient y synagog, ond buont hefyd mewn cysylltiad â'r deml, fel y dengys y Testament Newydd (Luc 2 : 46, Ioan 18 : 20). Yr oeddynt yn aelodau o'r Sanhedrin, ac oherwydd hyn fe'u gelwid hwy yn 'gyfreithwyr' a chlywir amdanynt yn gweinyddu'r gyfraith (Marc 12 : 40, Luc 20 : 47).

Mewn materion crefyddol, yr oeddynt yn debyg i'r Phariseaid, ond ni ddylid cymysgu rhwng y ddwy sect. Ond yr oeddynt yn gytûn ar bwysigrwydd y Gyfraith a'i hawdurdod ar fywyd, ac yn eu cred mewn atgyfodiad ac yn y gobaith mesiaanaidd.

PENNOD 6

GWYLIAU, DEFODAU AC ARFERION

Dyma restr o brif wyliau Iddewiaeth:

<i>Chwefror</i>	: Gŵyl Purim
<i>Mawrth</i>	: Gŵyl y Pasg (Pesach)
<i>Mai</i>	: Gŵyl Pentecost (Shevuoth)
<i>Mehefin</i>	: Gŵyl Ymryd Tammuz
<i>Gorffennaf</i>	: Gŵyl Ymryd y nawfed Av
<i>Medi</i>	: Gŵyl y Flwyddyn Newydd (Rosh Hosanah)
	Gŵyl Ymryd Gedaliah
	Gŵyl Dydd y Cymod (Yom Kippur)
	Gŵyl y Pebyll (Sukkoth)
	Gŵyl Llawenhau yn y Gyfraith (Simcath Torah)
<i>Tachwedd</i>	: Gŵyl y Goleuadau (Hanukah)
<i>Rhagfyr</i>	: Gŵyl Ymryd y Degfed Tevet

CALENDR IDDEWIG

TISHRI	Medi—Hydref
KISLEV	Tachwedd—Rhagfyr
TEVET	Rhagfyr—Ionawr
SHEVAT	Ionawr—Chwefror
ADAR	Chwefror—Mawrth
NISAN	Mawrth—Ebrill
IYAR	Ebrill—Mai
SIVAN	Mai—Mehefin
AV	Gorffennaf—Awst